MAURICE, MATHIAS (1684 - 1738), gweinidog Annibynnol ac awdur

Enw: Mathias Maurice
Dyddiad geni: 1684
Dyddiad marw: 1738
Priod: Elizabeth Maurice
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: gweinidog Annibynnol ac awdur
Maes gweithgaredd: Crefydd; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu
Awduron: Robert Thomas Jenkins, George Thomas Streather

Ganwyd yn 1684; mab i deiliwr o Landdewi Efelffre, Sir Benfro, a theiliwr ei hunan, fel yr edliwir yn angharedig iddo gan Jeremy Owen. Ymaelododd yn eglwys Henllan Amgoed, ac aeth i Gaerfyrddin at William Evans i baratoi at y weinidogaeth; yno, mae'n debyg, yr oedd ar adeg yr ymraniadau cyntaf yn eglwys Henllan (1707-9). Yn yr ail ymraniad yno (1711) ymunodd Maurice a Henry Palmer ac eraill a aeth drosodd i Ryd-y-ceisiaid.

Yn gynnar yn 1713 urddwyd ef yn weinidog Annibynnol Olney (swydd Buckingham), ond ym mis Tachwedd 1714 galwyd ef i Rothwel ('Rowel'), Swydd Northampton, yn olynydd i Richard Davis - olyniaeth naturiol, pan gofiwn yr Uchel-Galfiniaeth a'r gred mewn hunan-lywodraeth gynulleidfaol ddiamod a arddelasai Maurice yn Henllan.

Yn 1726, sgrifennodd draethawd bychan, *Byr a chywir Hanes Eglwys Rhydyceished yn eu Nheulltuad o Henllan, trwy y Blynyddoedd* 1707, 1708, 1709, a gyhoeddwyd fel atodiad i'w lyfr *Y Wir Eglwys*, yn 1727 (adargraffwyd ef gan D. M. Lewis yn *Y Cofiadur*, 1925, 41-9); ateb i hwn oedd pamffled Jeremy Owen, *Golwg ar y Beiau, etc.*, 1732. Cyhoeddodd nifer o lyfrau Saesneg, yn eu plith *Monuments of Mercy* (1729), *A modern question affirmed and approved* (1739). Enwir gweithiau a chyfieithiadau Maurice yn *Llyfryddiaeth y Cymry*, dan 1711, 1720, 1727, 1733, 1734, 1759.

Ei waith gwreiddiol mwyaf poblogaidd oedd *Social Religion Exemplified*, 1759, a oedd erbyn 1860 wedi mynd drwy saith argraffiad. Cyfieithwyd talfyriad y Dr. Edward Williams ohono yn Gymraeg, gan Benjamin Evans, Drewen, yn 1797, a'r cwbl ohono gan Evan Evans, Nanty-glo, yn 1862 - aeth y naill a'r llall i fwy nag un argraffiad.

Bu Maurice farw yn Rothwell ar 1 Medi 1738; bu ei weddw Elizabeth farw 8 Hydref 1771, yn 73 oed.

Awduron

Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins, (1881 - 1969)

George Thomas Streather

Ffynonellau

Hanes Eglwysi Annibynnol Cymru, iii, 346-7

D. M. Lewis, Eglwysi Henllan a Rhydyceisiaid: Mathias Maurice a 'Dadl Henllan', *Y Cofiadur*, 1925, 22-49

T. Richards yn *A History of Carmarthenshire*, ii (1939), 165-70

Norman Glass, *The Early History of the Independent Church at Rothwell, alias Rowell, in Northamptonshire* (Northampton 1871)

Cofnodion y gynulleidfa yn Rothwell

Gweithiau

Mathias Maurice, *Ymddiddan rhwng dau Gristion, cywir a ffyddlon, ynghylch ail-enedigaeth* (Llundain 1730)

Dolenni Ychwanegol

VIAF: 15141921

Wikidata: Q20733895

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu